


Cymryd seibiant o'ch astudiaethau neu adael eich cwrs



2017/18



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Rydym yn deall bod amgylchiadau'n gallu newid ac y gall fod angen i chi gymryd seibiant o'ch astudiaethau neu adael eich cwrs Meistr Ôl-raddedig. Gall cymryd seibiant neu adael eich astudiaethau effeithio ar eich cyllid myfyriwr, felly mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni ar unwaith.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn cymryd seibiant o'm cwrs?

Os byddwch yn cymryd seibiant o'ch cwrs, bydd taliadau'ch Benthyciad Ôl-raddedig yn stopio. Os byddwch yn cael taliad wedi hyn, efallai y gofynnir i chi ei ad-dalu'n syth, felly mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni cyn gynted ag y byddwch yn cymryd seibiant.

Os yw'ch prifysgol wedi cytuno bod modd i chi gymryd seibiant o'ch astudiaethau, bydd taliadau'ch Benthyciad Ôl-raddedig yn cychwyn unwaith eto ar ôl i chi ddychwelyd i'ch cwrs. Fodd bynnag, os byddwch yn cymryd seibiant am ddwy flynedd neu fwy yn ystod eich cwrs, dim ond os bydd modd i chi ddangos bod gennych chi resymau personol eithriadol y byddwch yn cael taliadau Benthyciad Ôl-raddedig pellach.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn gadael fy nghwrs?

Os byddwch yn gadael eich cwrs, bydd eich taliadau Benthyciad Ôl-raddedig yn stopio. Os byddwch yn cael taliad ar ôl hyn, efallai y gofynnir i chi ei ad-dalu'n syth, felly mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni cyn gynted ag y byddwch yn gadael eich cwrs.

Os oes gennych chi resymau personol eithriadol dros adael eich cwrs, efallai y bydd modd i chi gael Benthyciad Ôl-raddedig arall ar gyfer cwrs newydd. Dim ond unwaith y gallwch gael hwn.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn ailadrodd blwyddyn?

Ni fydd modd i chi gael cyllid i ailadrodd blwyddyn, neu ran o flwyddyn, o'ch cwrs – hyd yn oed os nad ydych wedi cael holl daliadau'ch Benthyciad Ôl-raddedig neu os byddwch yn dewis peidio cael uchafswm y benthyciad sydd ar gael i chi.

Rhesymau personol eithriadol

Os byddwch yn cymryd seibiant o'ch cwrs neu os na fyddwch yn ei orffen am resymau personol eithriadol, megis salwch neu brofedigaeth, gofynnir i chi anfon tystiolaeth i gefnogi hyn. Byddwn yn ystyried pob achos yn unigol. Ni cheir rhestr bendant o resymau personol eithriadol, ond fel arfer, ni ellir ystyried perfformiad academiaidd ar ei ben ei hun fel rheswm personol eithriadol.

Hawlio budd-daliadau

Os byddwch yn cymryd seibiant neu'n gadael eich cwrs, efallai y bydd modd i chi hawlio budd-daliadau mewn amgylchiadau arbennig, er enghraifft, os byddwch yn mynd yn sâl neu'n ymgymryd â chyfrifoldebau gofalu. Dylech gysylltu â'ch Canolfan Byd Gwaith leol am gyngor. Yn ogystal, gallwch droi at www.cymru.gov.uk i gael gwybod am unrhyw fudd-daliadau y gallech eu cael.

Ad-dalu'ch Benthyciad Ôl-raddedig

Os byddwch chi wedi cael gordaliad o ganlyniad i'r ffaith eich bod wedi cymryd seibiant neu wedi gadael eich cwrs, byddwn yn cysylltu â chi i roi gwybod i chi sut i ad-dalu'r swm a or-dalwyd i chi neu i leihau unrhyw gyllid i fyfyrwyr pellach y mae gennych hawl i'w gael. Dylech roi gwybod i ni cyn gynted ag y byddwch yn penderfynu cymryd seibiant neu adael eich cwrs, i leihau'r siawns y byddwch yn cael gordaliad.

Os na fyddwch wedi cael gordaliad, byddwch yn ad-dalu'ch Benthyciad Ôl-raddedig fel arfer. Gallwch gael gwybod mwy am ad-dalu'ch Benthyciad Ôl-raddedig ar www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk

Am ragor o wybodaeth

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch neu os na ddisgrifir eich amgylchiadau chi yma, gallwch ein ffonio ar **0300 100 0494** rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

I ddweud wrthym fod eich amgylchiadau wedi newid, mewngofnodwch i'ch cyfrif cyllid myfyriwr ar www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk

Am ddiweddariadau rheolaidd, dilynwch ni ar Twitter, hoffwch ni ar Facebook a gwylwch ein ffilmiau ar YouTube.

 [facebook.com/SFWales](https://www.facebook.com/SFWales)

 twitter.com/SF_Wales

 [youtube.com/SFWFILM](https://www.youtube.com/SFWFILM)

Gallwch lawrlwytho rhagor o gopiâu o'r canllaw hwn ar-lein trwy droi at **www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk**.

Gallwch hefyd archebu ffurflenni a chanllawiau ar ffurf Braille, print bras neu sain trwy e-bostio eich manylion ynghyd â ffa ffurf a fformat yr hoffech at **brailleandlargefonts@slc.co.uk** neu gallwch ein ffonio ni ar **0141 243 3686**. Sylwer, dim ond gyda cheisiadau am ffurfiau amgen ffurflenni a chanllawiau y bydd modd i'r cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn uchod ddelio gyda nhw.

WG32178

ISBN: 978-1-4734-9807-5

© Argraffydd y Frenhines a Rheolydd HMSO 2017.

Cynhyrwyd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr ar ran Llywodraeth Cymru.

Gellir atgynhyrchu rhannau o'r ddogfen hon i ddibenion ymchwil, addysg neu hyfforddiant anfasnachol ar yr amod y cydnabyddir y ffynhonnell. Ar gyfer unrhyw ddefnydd arall, cysylltwch â: **HMSOlicensing@cabinetoffice.x.gsi.gov.uk**

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer arweiniad yn unig ac nid yw'n ddatganiad o'r gyfraith.